


# A ddylai fy elusen i ystyried Theori Newid a Mesur Effaith?

## Theori Newid

Heddiw, mae mwy a mwy o elusennau yn defnyddio theori newid, ac mae mwy a mwy o gyllidwyr yn gofyn i'w gweld. Felly, beth yw theori newid, a pham y mae mor werthfawr?

Mae theori newid yn dangos y newid yr hoffai'ch mudiad ei wneud, a'r camau angenrheidiol i wneud y newid hwnnw. *Eich theori chi* yw hi ar gyfer sut rydych yn creu newid. Mae hefyd yn dangos tybiaethau y tu ôl i'ch rhesymeg, y gallwch eu profi drwy gasglu data. Mae theori newid yn aml yn weledol, ond mae disgrifiadau ysgrifenedig yn iawn hefyd.

Figure 1: Need: Children are falling behind at school because of problems at home



Ceir 3 phrif reswm pam mae theori newid yn ddefnyddiol:


- **Strategaeth:** mae theori newid o gymorth i ddeall a ydych yn gwneud y pethau cywir i gyflawni'ch amcanion. Mae'n eich helpu hefyd i ystyried a oes pethau rydych yn eu gwneud *nad ydynt* yn eich helpu i gyflawni'ch amcanion.
- **Mesur:** mae theori newid yn cynnig fframwaith i ddechrau meddwl am fesur eich effaith. Mae pob saeth mewn theori newid yn dybiaeth sydd angen ei phrofi â thystiolaeth.
- **Eich lle yn y sector ehangach:** pa weithgareddau a chanlyniadau y gallwch eu cyflawni ar eich pen eich hun, a pha rai sy'n gofyn am fwy o gydweithio â mudiadau eraill i'w cyflawni?

**Mae theori newid yn eich gorfodi i gymryd golwg glir, syml ar eich gwaith, gan ei grisialu i gyn lleied o gamau â phosib i gipio'r agweddau allweddol ar yr hyn rydych yn ei wneud.** Rydym wedi llunio [arweiniad ymarferol](#) i helpu elusennau i feddwl drwy'r broses o ddatblygu theori newid.

## Mesur Effaith

Bydd mesur eich effaith yn eich helpu i wneud y gwahaniaeth mwyaf posib i'ch buddiolwyr, yn helpu i ddenu cyllid, ac yn helpu i ysgogi staff a gwirfoddolwyr, os cynllunnir y broses yn dda. Mae pob cam mewn theori newid yn cynrychioli tybiaeth ynglŷn â'r newid rydych yn ei greu – mae mesur yn darparu'r dystiolaeth fod y tybiaethau hyn yn gywir. Ond cofiwch fesur effaith mewn ffordd gymesur â maint ac adnoddau'ch mudiad. Peidiwch â mesur popeth – blaenoriaethwch yr hyn sydd bwysicaf i chi ei fesur.

Mae pedwar cam wrth ymdrin ag effaith: **cynllunio, gwneud, asesu, adolygu:**



Ar ôl dewis pa ganlyniadau yr hoffech eu mesur, bydd angen i chi ddewis eich fffynonellau a'ch dulliau. Yn NPC rydym yn meddwl am y [5 math o ddata](#) y gallwch eu casglu i ddeall eich effaith: data am ddefnyddwyr, ymgysylltu, adborth, canlyniadau ac effaith

## Canllaw syml cam wrth gam i ymdrin ag effaith

Y Cod Ymarfer ar gyfer Adrodd Effaith

Cyn mynd ati i fesur effaith, [cymerwch olwg ar yr egwyddorion](#) sy'n sail i ymarfer da wrth ymdrin ag effaith:

1. Cymryd cyfrifoldeb am effaith ac annog eraill i wneud hynny hefyd
2. Canolbwyntio ar bwrpas
3. Cynnwys eraill yn eich arferion adrodd effaith
4. Defnyddio adnoddau a dulliau cymesur a phriodol
5. Ystyried ystod lawn y gwahaniaeth a wnewch
6. Bod yn onest ac yn agored
7. Bod yn barod i newid a gweithredu ar yr hyn rydych yn ei ganfod
8. Mynd ati i rannu eich cynlluniau, dulliau, canfyddiadau a gwersi yng nghyswllt effaith

### Canllaw cam wrth gam wrth ymdrin ag effaith

#### Cynllunio'r hyn yr hoffech ei fesur (CYNLLUNIO)

- Gofynnwch i'ch hun: beth hoffem ei ddeall am ein gwaith? Pwy sy'n cael budd o'n gwaith? Ysgrifennwch ddatganiad cenhadaeth (neu adlewyrchu ar un sydd gennych yn barod) sy'n gosod diben clir.
- Dechreuwch broses theori newid, gan fynegi'r canlyniadau positif yr hoffech eu cyflawni i fuddiolwyr.

#### Dechrau casglu data (GWNEUD)

Yn y cam cynllunio, byddwch wedi mynegi'r hyn rydych yn ceisio ei gyflawni. Y peth nesaf i'w wneud yw casglu tystiolaeth o sut neu pam mae'ch gwaith yn gwneud

gwahaniaeth tuag at y canlyniadau hynny. Cofiwch ei gwneud yn glir i bawb pam rydych yn casglu gwybodaeth ganddynt a sut y'i defnyddir. Dylech bob amser gadw data yn ddiogel, yn barchus ac yn gyfreithlon.

- Blaenoriaethwch nifer realistig o ganlyniadau o'ch theori newid i'w mesur – nid oes angen i chi eu mesur nhw i gyd.
- Ystyriwch y ffordd orau o dystiolaethu'r canlyniadau hynny – arolwg yw'r dull mwyaf cyffredin.
- Rhowch brawf bach ar ddulliau newydd – gan ystyried a yw'r dull yn rhoi'r dystiolaeth rydych yn chwilio amdani. Newidiwch y dull fel sydd angen.

#### Asesu'r data: beth mae'n ei ddweud wrthym? (ASESU)

- Dadansoddwch y data i ddeall sut a pham mae newidiadau'n digwydd i fuddiolwyr. Os yw'ch data'n feintiol, gellir defnyddio excel i'w ddadansoddi (mae YouTube yn llawn fideos bach handi!)
- Edrychwch yn ofalus ar ganlyniadau negyddol ac annisgwyl yn ogystal â rhai positif.
- Ystyriwch y ffactorau eraill a allai fod wedi dylanwadu ar ganlyniadau – gall fod o gymorth i feddwl am eich cyfraniad at ganlyniadau, yn hytrach na'ch priodoliad.

#### Adolygu'ch data (ADOLYGU)

Peidiwch â gorffen yma. Mae'n bwysig dysgu ar ôl mesur effaith, i newid eich gwasanaethau fel sydd angen er mwyn eu gwella. Gall hyn fod yn bethau syml.

- Rhannwch eich canfyddiadau'n agored â'ch mudiad, buddiolwyr, a mudiadau eraill, gan gynnwys gwybodaeth am sut y casglwyd y data

## Canllaw syml cam wrth gam i ymdrin ag effaith

**INSPIRING  
IMPACT**



- Defnyddiwch y canfyddiadau i ystyried sut y gallech wella'r ffordd rydych yn cyflawni'ch gwaith.